Teithlenni Parc Gwledig y Morglawdd, Ynys Lawd, Rhoscolyn, Llynnoedd y Fali

Cyfeirnod Grid: **SH 225833 - SH 216829 - SH 266763 - SH 312765**

Pedwar o safleoedd tirwedd a bywyd gwyllt rhagorol gyda pheth teithio rhyngddynt. Mae'n bosibl ymweld â 2 neu 3 mewn diwrnod.

Parc Gwledig y Morglawdd ~ 2 awr

- Rhwng Caergybi ac Ynys Lawd.
- Maes parcio.
- Cerdded helaeth a cherdded hawdd o gwmpas y traeth creigiog a'r parc gan gynnwys hen chwarel; llwybrau hefyd yn arwain at glogwyni Ynys Arw.
- Mae gan y warchodfa ganolfan, siop a chaffi.

Ynys Lawd, Gwarchodfa y Gymdeithas Gwarchod Adar ~ 2 awr

- Maes parcio mawr wrth ymyl canolfan ymwelwyr a caffi y Gymdeithas Gwarchod Adar.
- Arsyllfa adar Tŵr Elin ar ben y clogwyn.
- Clogwyni ysblennydd gyda chytrefi mawr o adar môr yn ystod yr haf. Lle da i weld brain coesgoch, hebog tramor ac adar mudol.
- Lle i gerdded yn eang ar y rhostir ar ben y clogwyni.
- Llwybr a grisiau i'r goleudy.

Rhoscolyn ~ 2 awr

- Parcio ym Mae Trearddur neu faes parcio Traeth Borthwen.
- Cyfle i gerdded ar ben y clogwyni syfrdanol o gwmpas Pentir Rhoscolyn.
- Llawer o ddiddordeb daearegol a geomorffolegol gan gynnwys ffurfiadau creigiau plygiedig, bwâu môr a mordwll.

Mae cyfleodd beicio o gwmpas ac yn nhref Caergybi. Gellir llogi beic ar Ynys Cybi. Llwybr beic i ac oddi wrth Barc Gwledig y Morglawdd, Llaingoch.

Llynnoedd y Fali, gwarchodfa'r Gymdeithas Gwarchod Adar ~ 2 awr

- Maes parcio cyfagos i RAF Fali.
- Llwybrau helaeth o gwmpas nifer o lynnoedd atyniadol a hesg o'u hamgylch.
- Cyfoethog iawn o safbwynt adar gan gynnwys hwyaid, gwyachod, gwyddau ac adar gwelyau hesg a'r prysgwydd.